ATODLEN 1

Busnesau a gwasanaethau y mae eu mangreoedd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau neu i'w cau

# RHAN 3

## Busnesau a gwasanaethau y caniateir i'w mangreoedd fod ar agor

**33.** Manwerthwyr bwyd, gan gynnwys marchnadoedd bwyd, archfarchnadoedd, siopau cyfleustra, siopau cornel a sefydliadau sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre (gan gynnwys mangreoedd sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y fangre).

**34.** Caffis a ffreuturau mewn ysbyty, cartref gofal, ysgol neu mewn llety a ddarperir ar gyfer myfyrwyr.

**35.** Ffreuturau mewn carchar neu sefydliad y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr neu at ddibenion Adran yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am amddiffyn.

**36.** Llyfrgelloedd ysbytai a llyfrgelloedd mewn sefydliadau addysgol.

**37.** Siopau papurau newydd.

**38.** Siopau cyflenwadau adeiladu ac offer.

**39.** Fferyllfeydd (yn cynnwys fferyllfeydd nad ydynt yn darparu cyffuriau ar bresgripsiwn) a siopau cemist.

**40.** Siopau beiciau.

**41.** Gorsafoedd petrol.

**42.** Gwasanaethau trwsio ceir ac MOT.

**43.** Busnesau tacsi neu logi cerbydau.

**44.** Banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, darparwyr benthyciadau tymor byr, clybiau cynilo, peiriannau arian parod ac ymgymeriadau sydd, o ran eu busnes, yn gweithredu swyddfeydd cyfnewid arian cyfred, yn trawsyrru arian (neu unrhyw gynrychiolaeth o arian) drwy unrhyw ddull neu sieciau arian parod sydd wedi eu gwneud yn daladwy i gwsmeriaid.

**45.** Swyddfeydd post.

**46.** Golchdai a siopau glanhau dillad.

**47.** Gwasanaethau deintyddol, optegwyr, gwasanaethau awdioleg, trin traed, ceiropractyddion, osteopathiaid a gwasanaethau meddygol neu iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

**48.** Milfeddygon a siopau anifeiliaid anwes.

**49.** Siopau cyflenwadau amaethyddol neu ddyframaethu.

**50.** Marchnadoedd neu arwerthiannau da byw.

**51.** Trefnwyr angladdau.